

Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021

**Hysbysiad o gyfarfod****Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit****Dydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021 at 2.00 pm,  
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA****AGENDA**

<b>Item No</b>	<b>Item</b>	<b>Pages</b>
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd	
4.	Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol.	1 - 2
5.	Adolygiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	To Follow
6.	Diweddariad ar Farnau Archwilio Mewnol Anffafriol	3 - 8
7.	Tystysgrif Cydymffurfiaeth Archwilio Cymru ar gyfer asesiad perfformiad archwiliad Cyngor Sir Fynwy 2020/21	9 - 12
8.	Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol (bob 6 mis)	13 - 48
9.	Gweithredu Argymhellion Archwilio Mewnol Cytûn	49 - 58
10.	Blaengynllun Gwaith	59 - 62
11.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol	63 - 66
12.	I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf sef 13eg Ionawr 2022	

**Paul Matthews  
Prif Weithredwr**

---

## CYNGOR SIR FYNWY

### MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Philip White (Co-opted Member)

County Councillor Peter Clarke	Llangybi Fawr;	Welsh Conservative Party
County Councillor Tony Easson	Dewstow;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Mat Feakins	Drybridge;	Welsh Conservative Party
County Councillor Jim Higginson	Severn;	Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Bryan Jones	Goytre Fawr;	Welsh Conservative Party
County Councillor Paul Jordan	Cantref;	Welsh Conservative Party
County Councillor Malcolm Lane	Mardy;	Welsh Conservative Party
County Councillor Phil Murphy	Caerwent;	Welsh Conservative Party
County Councillor Val Smith	Llanbadoc;	Independent Group
County Councillor Brian Strong	Usk;	Welsh Conservative Party
County Councillor Jo Watkins	Caldicot Castle;	Liberal Democrats

## Gwybodaeth Gyhoeddus

### **Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

### **Edrych ar y cyfarfod ar-lein**

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i

gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

### **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

### Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored.** Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch.** Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwranddo ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd.** Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tim.** Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.